| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Y Cabinet |
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy / Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd |
| Awdur yr Adroddiad: | Tara Dumas, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu / Helen Makin, Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael |
| Teitl: | Amrywio Contractau ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref CSDd |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Rhaid i'r Cyngor ystyried y trefniadau gweithredu'r dyfodol ar gyfer ei dair Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (HRCs) yn Rhuthun, Dinbych a'r Rhyl er mwyn optimeiddio'r gwerth am arian ar gyfer y gwasanaeth cartref poblogaidd hwn. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r contract gael ei ymestyn ymhellach i archwilio cyfleoedd cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar 1 Ebrill, 2009, cytunodd y Cyngor i gontract saith mlynedd ar gyfer derbyn, cadw, trin a gwaredu ar wastraff cartref a gymerir i HRC Sir Ddinbych gan aelodau o'r cyhoedd. Ar hyn o bryd mae tri safle, un yn y Rhyl, un ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy yn Ninbych ac un ar Ystâd Lôn Parcwr, Rhuthun. Oherwydd perfformiad cryf y contractwr, galwyd am yr opsiwn i ymestyn y contract am dair blynedd. Daw'r contract i ben ar 31 Mawrth 2019 a rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y model gweithredu ar gyfer y tri safle yn y dyfodol.

Mae angen penderfyniad bellach ynghylch a ddylid rhoi estyniad pellach i'r contractwr presennol, CAD Recycling, er mwyn galluogi Cyngor Sir Ddinbych i gymryd rhan mewn ymarfer gyda Rhaglen Newid Cydweithredol WRAP Cymru (gweler Atodiad 1) ac Awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Bwriedir i'r prosiect ddechrau yn ddiweddarach y mis hwn a bydd yn nodi a oes cyfleoedd i wireddu arbedion o weithrediadau HRC ar draws y rhanbarth trwy gaffael a / neu resymoli gwasanaethau ar y cyd.

- Cost ymestyn y contract am 2 flynedd yw: £3,293,995 £ 3,293,995
- Cost ymestyn y contract am 3 blynedd yw: £4,940,993

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cytuno i ymestyn y contract presennol am 2 flynedd (hyd at 31 Mawrth 2021) gan ganiatáu ar gyfer trydedd flwyddyn wrth gefn (hyd at 31 Mawrth 2022).

Bod y Cabinet yn awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gyhoeddi llythyr Amrywio Contractau i CAD Recycling i ymestyn y contract presennol 2 flynedd (hyd at 31 Mawrth 2021) gan ganiatáu ar gyfer trydedd flwyddyn wrth gefn (hyd at 31 Mawrth 2022). Mae hyn yn rhoi’r hyblygrwydd i ni gaffael gwasanaethau ar unrhyw adeg, pe bai'r Prosiect Cydweithio'n dod i ben yn gynharach na'r disgwyl. Mae hefyd yn darparu digon o amser i roi trefniant newydd yn ei le.

3.3 Bod y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn adrodd ar gynnydd a / neu ganlyniadau'r Prosiect Newid Cydweithredol i'r Pwyllgor Craffu dim hwyrach na Rhagfyr 2019, ynghyd ag argymhellion ynghylch yr opsiwn a ffafrir ar gyfer comisiynu gwasanaethau HRC yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Bydd Rhaglen Newid Cydweithredol WRAP Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru dros y 12 mis nesaf i benderfynu a all arbedion fod yn bosibl trwy resymoli gwasanaethau ar draws ffiniau daearyddol a thrwy gaffael ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill. .  Bydd cam cyntaf y gwaith hwn yn cael ei wneud o fis Medi 2018 ac mae'n cynnwys:

- Amlinelliad o gwmpas a methodoleg y prosiect
- Dewisiadau posibl a gosod paramedrau
- Datblygiad gwaelodlin - casglu data

4.2 Rhagwelir y bydd Swyddogion yn gallu adrodd ar ganlyniad y prosiect cydweithio dim hwyrach na Rhagfyr 2019. Bydd yr adroddiad yn nodi'r buddion (os o gwbl) o ymgymryd â chaffaeliad yr HRC rhanbarthol, a darparu opsiynau / argymhellion ynghylch sut y caiff y gwasanaethau eu pennu a'u prynu.  Os canfyddir buddion ychwanegol o resymoli'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys achos busnes ar gyfer hyn, gan roi manylion sut y gellir ariannu'r gwaith gweithredu (e.e. darparu seilwaith newydd sydd wedi'i leoli'n strategol sy'n gwasanaethu mwy nag un awdurdod) a sut y caiff y costau eu dosrannu rhwng awdurdodau.  Bydd yr adroddiad hefyd yn edrych ar yr opsiwn o barhau â HRC ar wahân i Gyngor Sir Ddinbych a'r opsiynau comisiynu o gwmpas hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Amgylchedd: Deniadol ac wedi’i ddiogelu, cefnogi lles a ffyniant economaidd:

Mae CAD Recycling wedi dod yn gwmni newydd sylweddol i'r Marchnadoedd Diwydiant Gwastraff ac maent yn lleol, gyda phrif swyddfeydd yn Ninbych.  Mae'r contract gyda'r Cyngor wedi eu galluogi i dyfu fel busnes, gan gynnig gwaith yn lleol, a chyfrannu at yr economi leol.  Fel rhan o'u hymrwymiadau buddion cymunedol, maent yn parhau i ddarparu prentisiaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn lleol. Pe bai'r estyniad i’r contract yn cael ei gymeradwyo, bydd y Prosiect Cydweithio yn nodi'r ffordd fwyaf effeithlon o gaffael gwasanaethau yn y tymor hwy ac yn ycyfamser mae'n cynnig gwerth am arian i'r Cyngor.

5.2 Cymunedau Cysylltiol: Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau cludiant da:   Mae'r tri

safle presennol yn cynnig cyfleoedd gwastraff ac ailgylchu lleol i breswylwyr a gwasanaeth effeithlon a hygyrch.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd estyniad pellach o hyd at dair blynedd yn costio a £4.94M ychwanegol, gan ddod â chyfanswm gwerth contract rhwng 2009 a 2019 i £16.5M. Bydd gan yr HRC â chontract gyfanswm gwerth contract o £21.4M erbyn 31 Mawrth 2022.

Mae gan y Cyngor ddarpariaethau presennol i dalu am werth contract blynyddol. Nid yw CAD Recycling wedi cytuno i unrhyw fynegeio trwy gydol y cyfnod estynedig. Ni fydd unrhyw effaith ar unrhyw wasanaethau eraill. Bydd y gwaith sydd ei angen i ymgymryd â phrosiect cydweithredu'r HRC wedi'i gynnwys o fewn yr adnoddau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad oes newid i'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol a gynigir.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r angen i edrych ar gyfleoedd cydweithio rhanbarthol ar gyfer gweithredu HRC wedi'i nodi trwy'r Grŵp Swyddogion Technegol a Chyd-bwyllgor Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Byddai unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol eraill.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 O safbwynt ariannol, bydd estyniad tymor canolig y contract a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn golygu bod costau'n cael eu cynnwys o fewn yr adnoddau presennol dros y cyfnod o 2 flynedd, a hefyd yn caniatáu'r amser i'r Cyngor i gymryd rhan yn y prosiect rhanbarthol y gobeithir y bydd yn canfod cyfleoedd ar gyfer arbedion wrth symud ymlaen. Gellir hefyd cadarnhau bod y camau arfaethedig yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chontract.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau gweithredol nac enw da yn cael eu rhagweld gan na fydd y gwasanaethau yn newid o ganlyniad i'r estyniad contract.

10.2 Mae'r risgiau allweddol canlynol wedi'u canfod a byddant yn cael eu rheoli gan yr Uned Caffael Cydweithredol a Gwasanaethau Cyfreithiol:

- Her gyfreithiol mewn perthynas â'r broses gaffael - mae'r contract yn cael ei ymestyn yn hytrach na dechrau proses gaffael. Y farn gyfreithiol yw mai'r estyniad yw'r ateb gorau yn ystod y cyfnod hwn o newid posibl trwy gydweithio rhanbarthol ar gyfer prosiect na ragwelwyd gan y Cyngor. Mae hefyd yn fwy tebygol na pheidio nad yw'n werth am arian i ymgymryd â chaffael rŵan ac ymrwymo i gontract tymor byr, wedi'i reoli gan fewnbwn cyngor cyfreithiol arbenigol o ran y broses ymestyn a llunio'r ddogfennaeth ofynnol;

- Her gyfreithiol mewn perthynas ag amrywio'r contract. Y cyngor yw bod gwerthoedd sy'n ymwneud â chyfanswm gwerth y contract a chyfanswm gwerth estyniad 3 blynedd yn gydnaws â Rheoliadau'r UE. Nid oes unrhyw amrywiad sylweddol gan nad ydym wedi cynyddu'r pris ac nid yw'r newid yn y fanyleb (yn ymwneud â bagiau bin du) wedi arwain at newid pris.

- Mae risg ariannol o dan y telerau contract presennol, mae costau gwaredu gwastraff cyffredinol y cartref (gwastraff bagiau du) a gymerir i'r HRC wedi'u cynnwys yn elfen ffi sefydlog y contract HRC. Yn 2019, bydd cyfleuster Ynni o Wastraff (EfW) y rhanbarth, Parc Adfer ar gael i drin gwastraff gweddilliol o gartrefi Sir Ddinbych. Mae arnom angen ffrydiau gwastraff penodol o'n HRC i wneud ein Tunelledd Isafswm Gwarantedig, ac yr ydym yn talu ffi benodol i weithredwyr EfW amdano. Felly, gallai methu â chyflwyno'r gwastraff hwn i Barc Adfer olygu ein bod ni'n talu ddwywaith ar gyfer trin gwastraff. Amod i'r estyniad contract yw bod yr holl wastraff gweddilliol sy'n deillio o'r HRC sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer triniaeth EfW ym MHarc Adfer yn cael ei gyflwyno gan CAD Recycling i orsaf drosglwyddo enwebedig. Bydd y Cyngor yn codi ar CAD am dderbyn y gwastraff hwn, ar gyfradd sy'n debyg i gyfraddau cyfredol y farchnad. Mae'n bwysig nodi bod CAD Recycling wedi cytuno i'r amod hwn, i'w fanylu yn y llythyr Amrywiad Contract.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'n ofynnol i'r Cabinet gytuno ar estyniad i’r contract hwn trwy reol 6.8.1 iv Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau i gyflwyno caffael a mynd i gontractau yn unol ag adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i ymgymryd ag unrhyw weithred i hwyluso, neu sydd yn ffafriol neu ddamweiniol, cyflawniad ei swyddogaethau yn llawn); adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (pŵer i wneud rheolau sefydlog i lywodraethu mynd i gontractau), adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi gymaint o swyddogion ac sydd rhaid er mwyn cyflawni swyddogaeth y Cyngor); adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 1999 (dyletswydd gyffredinol ar awdurdod gwerth gorau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd mae ei swyddogaethau’n cael eu cyflawni) ac adran 1 (2) Deddf Contractau Llywodraeth Leol 1997 (rhoi pŵer i awdurdodau lleol fynd i ystod eang o gontractau darparu asedau neu wasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau).

**Atodiad 1: Rhaglen Newid Cydweithredol (CCP)**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyfle i bob awdurdod lleol gymryd rhan mewn Rhaglen Newid Cydweithredol (CCP) i helpu i sicrhau bod Cymru'n bodloni'r targedau ailgylchu a nodir yn Tuag at Ddyfodol Di-wastraff a hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol.**

Mae'r Rhaglen yn agored i awdurdodau unigol a dylid ei ystyried hefyd fel offeryn allweddol ar gyfer galluogi gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar ddarparu gwasanaethau.

Nid yn unig y mae'r rhaglen yn ymwneud â sut y bydd awdurdodau yn cyflawni targedau, mae hefyd yn anelu at gefnogi rhannu syniadau ac arferion da yn effeithiol a all wella effeithlonrwydd o ran lleihau costau a gwella perfformiad. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy, gydag effeithiau ecolegol ac ôl troed carbon is. Mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol, gyda chostau net is o ran darparu gwasanaethau.

Cyflwynir y CCP trwy dîm penodol o WRAP Cymru. Mae gan y tîm WRAP ystod o wybodaeth, sgiliau a phrofiad i gyflwyno modelu, gwerthusiadau opsiynau, paratoadau cynllun busnes, caffaeliadau a darpariaeth weithredol, gyda chymorth gan ymgynghorwyr lle bo'n briodol.

Mae staff WRAP Cymru yn brofiadol o ran modelu ariannol ac amgylcheddol ac ymhob agwedd o gasgliadau gwastraff ac ailgylchu, o gasgliadau ymyl y ffordd, gweithredu Cyfleusterau Deunyddiau drwodd at ganolfannau gwastraff ac ailgylchu gwastraff y cartref (HWRC) a depos.

Mae'r CCP yn darparu grantiau cyfalaf i gefnogi'r newidiadau i wasanaethau gan awdurdodau lleol, a gweinyddir y rhain gan Banel Gwobrwyo a Gwerthuso'r CCP sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr CLlLC a WRAP.